

Yr Ysgol Sul

Darllen: Luc 2:41, 52

‘Oes gynnoch chi ysgol Sul acw?’ oedd y cwestiwn, a’r ateb a gafwyd oedd, ‘Nac oes, does gynnon ni ddim plant yn perthyn i’r capel’. Ateb dadlennol! Oes rhaid cael plant i gynnal ysgol Sul? Nid ysgol Sul i’r plant yn unig oedd syniad un o arloeswyr pennaf yr Ysgol Sul yng Nghymru – Thomas Charles. Yn yr ysgolion Sul cynnar, ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau’r bedwaredd ar bymtheg, roedd yna bobl o bob oed. Roedd nifer helaeth o’r rhain yn bobl dros oed yr addewid, a bu gwerthu enfawr ar sbectolau i’w helpu i ddarllen y Beibl a llyfrau atodol eraill.

Dowch i ni weld beth oedd gan Thomas Charles mewn golwg pan ddechreuodd ar ei waith arloesol. Wrth fynd o gwmpas y wlad i bregethu, gwelodd pa mor anwybodus oedd y werin. Doedd lliaws mawr ohonynt ddim yn gallu darllen, ac felly sut oedd modd iddyn nhw ddeall pregethau heb unrhyw fath o gefndir a hyfforddiant? Cychwynnodd ar rwydwaith o ysgolion cylchynol, sef atgyfodi system oedd eisoes wedi dwyn ffrwyth yn nyddiau Griffith Jones, Llanddowror. Thomas Charles ei hun oedd yn hyfforddi’r athrawon cyntaf; ef hefyd oedd yn dewis ardaloedd penodedig i’w cynnal; ac ef fyddai’n mynd o gwmpas i bwysu a mesur cyfraniad yr athrawon ac i arholi’r plant ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgolion. O’r ysgolion hyn y codwyd athrawon ar gyfer yr ysgolion Sul. Erbyn dechrau’r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd niferoedd yr ysgolion cylchynol yn lleihau a’r ysgolion Sul yn tyfu a datblygu.

Ysgolion i deuluoedd cyfain oedd y rhai cynnar, a’r plant a’r oedolion yn tyrru iddynt. Ceir sawl enghraifft o’r plant yn meistrolï’r sgil o ddarllen ac yna’n mynd ati i hyfforddi eu rhieni. Byddai hyn yn digwydd yn yr ysgol o Sul i Sul ac ar yr aelwydydd gyda’r nos. Y Beibl oedd y llyfr gosod, ond darparai Charles yn helaeth trwy gynhyrchu llyfrau atodol megis catecismau, *Y Sillydd* ac wrth gwrs y *Geiriadur* cynhwysfawr a gyhoeddodd mewn pedair cyfrol.

Nid yn unig paratoi'n drylwyr ar gyfer eneidiau ei bobl a wnâi; roedd hefyd yn mynnu eu paratoi ar gyfer bywyd bob dydd. Mae'n dangos sut i fod yn gwrtais, a sut i ymddwyn tuag at bobl eraill. Ei nod oedd creu cymdeithas wâr, a chodi'r unigolyn oedd wedi cael ei sathru cyhyd gan y bonheddwyr, a rhoi llwyfan a llais iddo yn ei gymdeithas. Nid rhyfedd i'r ysgol Sul ddod yn ganolbwynt cymdeithas ac i'w dylanwad dreiddio, fel lefain mewn blawd, i ganol bywyd y gymuned. Cynigiai Charles gymorth heb ei ail i deuluoedd cyfain, a'u paratoi nid yn unig ar gyfer y byd hwn ond hefyd ar gyfer y byd a ddaw. Nid rhyfedd i gomisiynwyr y Llyfrau Gleision, nad oedd ganddynt fawr o syniad am yr hyn oedd yn digwydd yng Nghymru, ryfeddu at ragoriaethau'r ysgol Sul. Dyna'r unig lygedyn o obaith a welwyd ym mywyd y genedl ar y pryd. Wrth i mi ysgrifennu'r myfyrdod hwn fis Hydref 2013, mae Eglwys Loegr yn gobeithio ailsefydlu'r ysgol Sul, ond gyda theitl newydd, 'Project y Pererin'. Efelychwn ninnau hi, neu chwilio am syniad gwell.

Myfyrdod pellach:

Sut fyddech chi'n mynd ati i gychwyn ysgol Sul yn eich bro?

Beth ydi hanfodion ysgol Sul?